



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Papur Briffio 1

Ailadeiladu Cymru fwy cyfartal a theg: Canolbwyntio ar effaith anghyfartal y pandemig Coronafeirws

May 2020

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Ynglŷn â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.....	2
Am y briff hwn	2
Argymhellion	3
Effaith anghyfartal y pandemig Coronafeirws	6
Effaith anghyfartal ar bobl hŷn a phobl anabl, rhai lleiafrifoedd ethnig, rhai menywod a phobl yn byw dan anfantais cymdeithasol-economaidd.....	6
Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sydd wedi hen galedu drwy cynllun gweithredu ar gyfer adeiladu Cymru fwy cyfartal a theg.....	9
Ystyriaeth barhaus o gydraddoldeb a hawliau dynol wrth wneud penderfyniadau	11
Cydymffurfriad parhaus â'r PSED yng Nghymru	11
Adeiladu Cymru fwy cyfartal a theg trwy'r fframwaith ar gyfer adferiad.....	13
Dechrau'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd fel erfyn ar gyfer ymateb ac adferiad.....	14
Cysylltiadau	16
EASS	16

Cyflwyniad

Ynglŷn â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Corff cydraddoldeb cenedlaethol Prydain Fawr yw'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a ddyfarnwyd gan y Cenedloedd Unedig yn Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol statws A.

Helpu i wneud Prydain yn decach yw ein gorchwyl. Fe wnawn hyn drwy ddiogelu'r cyfreithiau, sy'n amddiffyn hawliau pobl i degwch, urddas a pharch, a'u gorfodi.

Fel corff cyhoeddus anadrannol statudol a sefydlwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2006, mae'r Comisiwn yn gweithredu'n annibynnol. Ein nod yw bod yn sefydliad arbenigol ac awdurdodol sy'n ganolfan ragoriaeth ar gyfer tystiolaeth, dadansoddiadau a chyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol. Ein huchelgais yw bod yn fan cyswllt hanfodol i lunwyr polisi, cyrff cyhoeddus a busnes.

Rydym yn defnyddio ein pwerau unigryw i herio gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal ac amddiffyn hawliau dynol. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau ac unigolion eraill i gyflawni ein nodau, ond rydym yn barod i gymryd camau caled yn erbyn y rheini sy'n camdrin hawliau pobl eraill.

Am y briff hwn

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru am weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus ar draws Cymru i ailadeiladu Cymru fwy cyfartal a theg.

Cyniga'r papur briffio hwn sylwadau cychwynnol ar effaith anghyfartal y pandemig Coronafeirws, cyngor ac argymhellion i gryfhau ystyriaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol wrth lunio polisiau a deddfwriaeth yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod yr ymateb i bandemig Coronafeirws a'r ffordd i adferiad yn ystyried cydraddoldeb a hawliau dynol yn llawn. Mae arnom angen cynllun gweithredu uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag effaith anghyfartal y pandemig Coronafeirws ac ailadeiladu Cymru tecach a mwy cyfartal.

Argymhellion

Effaith anghyfartal ar bobl hŷn a phobl anabl, rhai lleiafrifoedd ethnig, rhai menywod a phobl yn byw dan anfantais cymdeithasol-economaidd.

- Argymhelliad 1: Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru i barhau i wrando ar a deall y materion anghydraddoldebau a hawliau dynol allweddol yn codi o'r pandemig coronafeirws ac ymatebion iddo. Dylai hyn wedyn fwydo i'r broses gwneud penderfyniadau a chynlluniau gweithredu.
- Argymhelliad 2: Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau ar ryddid pobl wrth ymateb i'r pandemig yn cydymffurfio â chyfreithiau a safonau cydraddoldeb a hawliau dynol a'u bod yn angenrheidiol, cymesur, yn rhwym i amser ac wedi'u craffu'n briodol.
- Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus sydd yn gyfrifol am gasglu data asesu, monitro ac adrodd ar yr effaith, yn cynnwys effeithiau iechyd ac eraill coronafeirws ac ymateb deddfwriaethol a pholisi ar hawliau dynol a chydraddoldeb. Pan fydd dulliau arferol casglu data yn cael eu hymyrryd arnynt neu maent yn annigonol, dylent ddefnyddio ffynonellau newydd a dulliau amgenach i ennill mewnwelediad i effeithiau posib i nodweddion gwarchoddedig gwahanol.

Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sydd wedi hen galedu drwy gynllun gweithredu i ailadeiladu Cymru mwy cyfartal a theg.

- Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru greu cynllun gweithredu ar gyfer ailadeiladu Cymru fwy cyfartal a theg. Dylai hyn fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a materion hawliau dynol allweddol sydd wedi'u gwaethygu drwy effaith y pandemig Coronafeirws..
- Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus adolygu'u Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol i nodi'r anghydraddoldebau allweddol a waethygyd gan y pandemig coronafeirws a chreu cynllun gweithredu eglur gyda deilliannau cydraddoldeb i adeiladu Cymru fwy cyfartal a theg wrth i ni adfer o'r argyfwng hwn.

Ystyriaeth barhaus o gydraddoldeb a hawliau dynol wrth wneud penderfyniadau.

- Argymhelliad 6: Rhaid i Lywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus yng Nghymru a'r rheini sydd yn ymgymryd â swyddogaethau cyhoeddus, gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth lunio ymatebion i'r pandemig coronafeirws a'u rhoi ar waith, gan sicrhau eu bod wedi'u bwydo gan dystiolaeth a chysylltiad â grwpiau cynrychiadol, a'u bod yn tystiolaethu ystyriaeth o gydraddoldeb drwy asesiadau effaith ar gydraddoldeb a gosod dysg o ymagweddau gwahanol ledled Cymru a'r DU.
- Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Asesiadau Effaith ar Hawliau Plentyn (CRIA) yn cael eu cymhwyso i bob mesur sydd yn cael ei gymryd wrth ymateb i Covid-19. Wrth ymgymryd â'r CRIA, gall Llywodraeth Cymru ystyried y canllaw diweddar¹ wedi'i gyhoeddi gan Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn.
- Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus sicrhau bod asesiadau effaith cydraddoldeb polisïau neu brosesau newydd neu rai sydd wedi newid yn cael eu cynnal a'u cyhoeddi.

Adeiladu Cymru fwy cyfartal a theg trwy'r fframwaith ar gyfer adferiad.

- Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r fframwaith ar gyfer adferiad gyda chwestiynau ar ystyriaeth a mesuriad yr effaith ar nodweddion gwarchoddedig, gostwng anghydraddoldebau deilliannau yn sgil anfantais cymdeithasol-economaidd a hawliau dynol. Mae angen egluro'r gofynion cyfreithiol o fewn y Ddeddf Cydraddoldeb a'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd yn y fframwaith hwn. Mae angen proses gwneud penderfyniadau tryloyw ar gyfer y fframwaith i adferiad ac ystyriaeth yn seiliedig ar dystiolaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol. Gall CCHD Cymru gynghori Llywodraeth Cymru ar y fframwaith.
- Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru ychwanegu'r cwestiynau canlynol i'r Fframwaith i Arwain Cymru allan o'r Pandemig Coronafeirws:
 - A yw pwrpas y newid polisi/penderfyniad wedi'i osod yn eglur?
 - Ydym ni wedi defnyddio'r holl wybodaeth/tystiolaeth berthnasol sydd ar gael?
 - Ydy'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan y polisi/penderfyniad wedi'u cynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau?
 - A nodwyd effeithiau positif a negyddol posib?

¹ Gweler dogfen y CU ar y wefan [The Committee on the Rights of the Child warns of the grave physical, emotional and psychological effect of the COVID-19 pandemic on children and calls on States to protect the rights of children](#)

- Oes cynlluniau i liniaru unrhyw effaith negyddol?
- Oes cynlluniau i fonitro effaith wirioneddol y cynnig?

Dechrau'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd fel erfyn ar gyfer ymateb ac adferiad.

- Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd erbyn diwedd y flwyddyn a chymryd i gyfrif egwyddorion y ddyletswydd yn ei phroses gwneud penderfyniadau strategol presennol. Dylai dechrau ffurfiol y ddyletswydd gynnwys mynegiad eglur o anghydraddoldebau deilliannau yn sgil anfantais cymdeithasol-economaidd y mae rhaid i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus ledled Cymru ganolbwyntio arnynt i'w lleihau ac ailadeiladu Cymru fwy cyfartal a theg.
- Argymhelliad 12: I ddechrau rhoi'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd ar waith dylai Llywodraeth Cymru ystyried gostwng anghydraddoldebau iechyd yn sgil anfantais cymdeithasol-economaidd yn ei phroses gwneud penderfyniadau strategol. Dylai GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru sicrhau bod data wedi'i dadgyfuno yn cael ei gasglu a'i gyhoeddi ar achosion COVID-19 yng Nghymru - gan gynnwys yn ôl maes amddifadedd, rhyw, ethnigrwydd, cenedligrwydd ac anabledd - er mwyn deall yn well effaith iechyd gwahaniaethol y feirws, bwydo i'r broses gwneud penderfyniadau a chynorthwyo cydymffurfiaeth â'r PSED. Dylai Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru sicrhau bod y data hwn yn cael ei gasglu, ei gyhoeddi a'i adolygu pan nodir anghymesuredd mewn deilliannau iechyd.

Effaith anghyfartal y pandemig Coronafeirws

Effaith anghyfartal ar bobl hŷn a phobl anabl, rhai lleiafrifoedd ethnig, rhai menywod a phobl yn byw dan anfantais cymdeithasol-economaidd.

Pobl hŷn a phobl anabl: Mae pobl hŷn a phobl anabl yn wynebu pryderon lle gall bywyd fod yn y fantol ynglŷn â mynediad i iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn pryderu am gymhwysiad a chyfathrebiad amhriodol o hysbysiadau Na cheisier dadebru cardio-anadlol (DNAR) a osododd pobl hŷn a phobl anabl dan risg. Treiglodd Deddf Coronafeirws 2020 ddarpariaethau yn ôl o fewn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac yn ei sgil daeth dryswch a gofid ar fynediad i ofal hanfodol ac asesiadau gofalwyr. Mae pryderon enbyd yn parhau ynglŷn â diogelwch mewn cartrefi gofal gyda diffyg profi o ran y feirws a chyfarpar diogelu personol (PPE).

Mae effaith y pandemig Coronafeirws ar bobl hŷn yn ofid mawr i'r Comisiwn a rhanddeiliaid fel ei gilydd, yn enwedig y sefyllfa mewn cartrefi gofal, gan gynnwys diffyg profi yng Nghymru; a rhyddhau cleifion o ysbytai i gartrefi gofal. Mae pobl hŷn wedi sôn am deimlo eu bod wedi dioddef gwahaniaethu ac rydym yn pryderu y gallai eithrio unrhyw adran o'r boblogaeth rhag esmwytho cyfyngiadau symud yn seiliedig yn unig ar oed fod yn wahaniaethol².

² Erthygl y Guardian [‘Elderly must not be left out of lockdown easing.’](#)

Pobl anabl: Mae pobl anabl yn wynebu rhwystrau pellach i fynediad i gyfiawnder ac addysg. Mae'r twf cyflym o wrandawiadau fideo a ffôn ar draws lysoedd a thriwlysoedd mewn risg o gynyddu rhwystrau i gyfranogiad effeithiol i rai pobl anabl a thanseilio'r hawl i dreial teg os na chydabyddir a diwallir eu hanghenion arbennig. Gosododd y newidiadau i Dribwlysoedd Iechyd Meddwl bobl anabl yng Nghymru o dan anfantais fwy na'r rheini yn Lloegr³. Mae pryderon na fo plant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru yn cael mynediad i'r cymorth sydd ei angen arnynt ar gyfer eu haddysg⁴ a gallai graddau rhagfynegol effeithio ar eu cyrhaeddiad.

Pobl yn byw mewn tlodi: Mae anfantais cymdeithasol-economaidd yn effeithio ar gyfleoedd bywyd pobl ac yn croestorri ar draws ffurfiau eraill o wahaniaethu. Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol astudiaeth yn dangos bod cyfradd marwolaethau yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn arwyddocaol yn uwch nag yn ardaloedd cyfoethocach y genedl⁵. Roedd gan ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru gyfradd marwolaeth yn ymwneud â COVID-19, dwywaith o'r bron yn uwch na'r ardaloedd lleiaf difreintiedig⁶. Mae ansicrwydd bwyd wedi cynyddu i blant, pobl anabl a phobl hŷn; canfu Sefydliad Bevan bod cau'r ysgolion yng Nghymru oherwydd y coronafeirws wedi gweld mwy na 60,000 o blant yn colli mynediad i Brydau Ysgol am Ddim.

Lleiafrifoedd ethnig: Canfu adroddiad o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol⁷ fod pobl ddu yn bedair gwaith yn fwy tebygol o farw o goronafeirws, mae'r rhesymau ar gyfer hyn yn debygol o fod yn aml-ffactorau posib. Gallai graddau rhagfynegol effeithio'n barhaus ar bobl ifanc o rai cefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sydd eisoes o dan anfantais anghymesur. Mae lleiafrifoedd ethnig wedi'u gorgynrychioli mewn cyflogaeth isel ei dâl ac economi gig, ac felly caiff ei effeithio arno'n anghymesur gan ddiffyg pecynnau cymorth ariannol i weithwyr yn y sector hwn. Mae cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn wynebu mynediad cyfyngedig i ddŵr a glanweithdra, a'r risg o gael eu troi allan.

³ [Rheoliadau 2020 \(Cymru\) \(Cychwyniad Rhif 1\) Deddf Coronafeirws 2020](#)

⁴ [Snap Cymru Diweddariad Coronafeirws 3 Ebrill 2020](#)

⁵ [Adroddiad Wales online ar astudiaeth ONS 'Higher coronavirus death rates in Wales' poorest communities'](#)

⁶ [Adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ebrill 2020 'Deaths involving COVID-19 by local area and socioeconomic deprivation: deaths occurring between 1 March and 17 April 2020'](#)

⁷ [Adroddiad ONS Mai 2020 'Coronavirus \(COVID-19\) related deaths by ethnic group, England and Wales: 2 March 2020 to 10 April'](#)

Cydraddoldeb rhwng y rhywiau: Awgryma tystiolaeth fod cam-drin domestig yn cynyddu yn ystod yr argyfwng, gydag adroddiadau bod dynladdiadau domestig wedi dyblu. Mae menywod anabl a menywod lleiafrifoedd ethnig mewn mwy o risg o ddioddef cam-drin domestig. Mae gofidion taer nad yw goroeswyr efallai yn estyn am y cymorth a'r diogelwch sydd eu hangen arnynt yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae Cymorth Menywod Cymru wedi codi pryderon y bydd hyd yn oed fwy o alw am bob gwasanaeth trais yn erbyn menywod a merched wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu hesmwytho a goroeswyr yn estyn am gymorth⁸. Cododd Tonia Antoniazzi, AS dros Gŵyr, bryderon fod menywod beichiog wedi cael eu danfon adref ar dâl salwch neu absenoldeb heb dâl yn ystod yr argyfwng coronafeirws⁹. Mae cyfrifoldebau gofal yn cynyddu i lawer gan effeithio'n anghymesur ar un o bob pedair menyw 50-64 oed sydd â chyfrifoldebau gofalu, o'i gymharu ag un o bob chwe dyn¹⁰. Mae menywod lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth ansicr a gallent felly deimlo baich unrhyw ddirwasgiad economaidd.

Hawliau Dynol: Mae nifer o faterion hawliau dynol yn codi o'r pandemig coronafeirws ac ymatebion iddo. Mae pryder cynyddol am yr her posib i'r hawl i fywyd preifat a rhyddid sifil gan gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer dilyn cyswllt digidol a phasbortau imiwnedd¹¹. Bydd angen trin y data yn gyfreithiol, risgiau dros dro a phreifatrwydd wedi'u gwerthuso'n briodol ac wedi'u dwyn i gyfrif. Gallai hyn effeithio'n arbennig ar fudwyr, yn enwedig yng nghyd-destun amgylchedd gelyniaethus a phobl yn cael eu gwahardd yn ddigidol.

Argymhelliad 1: Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru i barhau i wrando ar a deall y materion anghydraddoldebau a hawliau dynol allweddol yn codi o'r pandemig coronafeirws ac ymatebion iddo. Dylai hyn wedyn fwydo i'r broses gwneud penderfyniadau a chynlluniau gweithredu.

Argymhelliad 2: Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau ar ryddid pobl wrth ymateb i'r pandemig yn cydymffurfio â chyfreithiau a safonau cydraddoldeb a hawliau dynol a'u bod yn angenrheidiol, cymesur, yn rhwym i amser ac wedi'u craffu'n briodol.

⁸ Cymorth Menywod Cymru [Datganiad i'r Wasg 24 Ebrill 2020](#)

⁹ Erthygl BBC Online ['Coronavirus: Claim pregnant women put on sick pay'](#)

¹⁰ Carers UK, [Papur briffio polisi Awst 2019](#)

¹¹ Newyddion BBC 4 Mai 2020 [Coronavirus: NHS virus tracing app could be used in Wales](#)

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus sydd yn gyfrifol am gasglu data asesu, monitro ac adrodd ar yr effaith, yn cynnwys effeithiau iechyd ac eraill coronafeirws ac ymateb deddfwriaethol a pholisi ar hawliau dynol a chydaddoldeb. Pan fydd dulliau arferol casglu data yn cael eu hymyrryd arnynt neu maent yn annigonol, dylent ddefnyddio ffynonellau newydd a dulliau amgenach i ennill mewnwelediad i effeithiau posib i nodweddion gwarchoddedig gwahanol.

Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sydd wedi hen galedu drwy cynllun gweithredu ar gyfer adeiladu Cymru fwy cyfartal a theg.

Dinoethir anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli, cânt eu dwysau a'u dyfnhau drwy effaith y pandemig coronafeirws. Yn ein Hadroddiad A yw Cymru'n Decach?¹² 2018 gwnaethom ddogfennu sut mae pobl anabl yn cael eu gadael yn bellach ar ei hôl hi, bod anfantais cymdeithasol-economaidd yn arwain i fwllch llym mewn profiadau bywyd, bod trais yn erbyn menywod a merched yn wirionedd i lawer, a bod anghydraddoldeb hil yn parhau yng Nghymru.

Drwy dystiolaeth yn y dyddiau cynnar mae'n ymddangos bod y coronafeirws a'r ymatebion iddo efallai yn gwaethygu'r anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli ar draws pob maes bywyd. Rhaid i'r ymatebion i Coronavirus a'r ffordd i adferiad ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r effaith anghyfartal ac anghydraddoldebau dyfnach, ynghyd â hyrwyddo a gwarchod hawliau dynol.

Mae pobl anabl, pobl hŷn, pobl o dan anfantais cymdeithasol-economaidd, rhai lleiafrifoedd ethnig a rhai menywod ar dalcen caled effaith y pandemig coronafeirws a'r mesurau sydd yn cael eu cymryd i ymateb iddo. Mae'n glir bod Llywodraeth Cymru yn gwrando ar randdeiliaid o'r grwpiau hyn o bobl ynglŷn ag effaith anghymesur ar eu profiadau ac yn cymryd rhai camau i fynd i'r afael â'r problemau a godwyd. Rydym am sicrhau bod eu lleisiau'n dal yn bwydo ystyriaeth o bolisi ac y bydd hyn yn y pendraw yn esgor ar weithredu i achub a gwella bywydau yng Nghymru.

¹² Adroddiad ar gael ar ein gwefan [A yw Cymru yn Decach? 2018](#)

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru greu cynllun gweithredu i ailadeiladu Cymru fwy cyfartal a theg. Dylai hyn fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a materion hawliau dynol allweddol sydd wedi'u gwaethygu drwy effaith y pandemig Coronafeirws.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus adolygu'u Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol i nodi'r anghydraddoldebau allweddol a waethygyd gan y pandemig coronafeirws a chreu cynllun gweithredu eglur gyda deilliannau cydraddoldeb i adeiladu Cymru fwy cyfartal a theg wrth i ni adfer o'r argyfwng hwn.

Ystyriaeth barhaus o gydraddoldeb a hawliau dynol wrth wneud penderfyniadau

Cydymffurfiad parhaus â'r PSED yng Nghymru.

Gan gydnabod y pwysau sydd yn wynebu cyrff cyhoeddus yn sgil y pandemig Coronafeirws, rydym wedi adolygu a, pan fo'n briodol, wedi gohirio'n hymagwedd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion adrodd yn nyletswyddau penodol y PSED.¹³ Yng Nghymru, dywedom wrth gyrff cyhoeddus y gallant oedi cyhoeddiad eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ac Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol am chwe mis. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa ym mis Hydref 2020. Fodd bynnag, anogom gyrff cyhoeddus rhestredig yng Nghymru i barhau i ateb y rhwymedigaethau hyn pan fo'n bosib.

Darpara Deddf Cydraddoldeb 2010 ('y Ddeddf') fframwaith cyfreithiol sydd yn diogelu unigolion rhag gwahaniaethu, gan hyrwyddo cymdeithas fwy cyfartal a theg. Mae cydymffurfiaeth parhaus â'r Ddeddf, gan Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill, yn hanfodol yn yr argyfwng presennol a thu hwnt. Rydym yn atgoffa Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus rhestredig yng Nghymru o'u rhwymedigaeth i gydymffurfio ag Adran 149(1) Deddf Cydraddoldeb 2010, dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus¹⁴. Mae Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb (EIAs) yn ofyniad cyfreithiol o dan Reoliadau 2011 (Cymru) (Dyletswyddau Statudol) Deddf Cydraddoldeb 2010 ac yn erfyn defnyddiol i sicrhau ystyriaeth effaith debygol polisiâu arfaethedig gan ddefnyddio tystiolaeth sydd ar gael cyn unrhyw benderfyniad i roi polisi ar waith.

¹³ Gweler mwy o wybodaeth ar ein camau cydymffurfio ar ein gwefan: [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Cyngor ac Arweiniad ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus'](#)

¹⁴ Adnoddau ar gael ar ein gwefan, ['Canllawiau i'r PSED yng Nghymru'](#)

Yng Nghymru mae hefyd ofyniad cyfreithiol i Weinidogion sicrhau eu bod yn ystyried buddiannau plant, mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ymateb i'r pandemig coronafeirws. O dan Adran 1 Mesur 2011 Hawliau Plant a Phersonau Ifanc (Cymru), mae dyletswydd gan Weinidogion i roi sylw dyledus i'r UNCRC. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i gynnal Aseiad Effaith ar Hawliau Plentyn (CIA) unrhyw ddeddfwriaeth neu bolisi a fydd yn effeithio'n uniongyrchol neu anuniongyrchol ar blant fel y'i hamlinellwyd yng Nghynllun y Plant 2014.

Argymhelliad 6: Rhaid i Lywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus yng Nghymru a'r rheini sydd yn ymgymryd â swyddogaethau cyhoeddus, gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth lunio ymatebion i'r pandemig coronafeirws a'u rhoi ar waith, gan sicrhau eu bod wedi'u bwydo gan dystiolaeth a chysylltiad â grwpiau cynrychiadol, a'u bod yn tystiolaethu ystyriaeth o gydraddoldeb drwy aseidiadau effaith ar gydraddoldeb a gosod dysg o ymagweddau gwahanol ledled Cymru a'r DU.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Aseidiadau Effaith ar Hawliau Plentyn (CIA) yn cael eu cymhwyso i bob mesur sydd yn cael ei gymryd wrth ymateb i Covid-19. Wrth ymgymryd â'r CIA, gall Llywodraeth Cymru ystyried y canllaw diweddar¹⁵ wedi'i gyhoeddi gan Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn.

Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus sicrhau bod aseidiadau effaith cydraddoldeb polisïau neu brosesau newydd neu rai sydd wedi newid yn cael eu cynnal a'u cyhoeddi.

¹⁵ [Gweler dogfen y CU ar y wefan The Committee on the Rights of the Child warns of the grave physical, emotional and psychological effect of the COVID-19 pandemic on children and calls on States to protect the rights of children](#)

Adeiladu Cymru fwy cyfartal a theg trwy'r fframwaith ar gyfer adferiad.

Rydym yn hapus i weld bod cydraddoldeb o fewn 'Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad' Llywodraeth Cymru¹⁶. Gellir cryfhau hyn i ailgadarnhau ystyriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol wrth wneud penderfyniadau yng Nghymru. Lluniodd Llywodraeth yr Alban 'Coronavirus (COVID-19): framework for decision making'¹⁷ sydd yn cynnwys ymrwymiad cliriach i gydraddoldeb a hawliau dynol.

Rydym hefyd yn cael ein calonogi gan ddull Llywodraeth Cymru ar gyfer hawliau dynol, ac rydym yn nodi y cyfeiriwyd at hawliau Ewrop a hawliau'r Confensiwn ill dau yn y canllaw diweddar ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae angen i'r ymagwedd hon gael ei gosod yn y fframwaith. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth ofalus o sut mae pob penderfyniad polisi yn effeithio ar hawliau dynol unigolion ledled Cymru. Er enghraifft bydd angen ystyried yr hawliau i ryddid a phreifatrwydd ochr yn ochr â hawliau plant.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r fframwaith ar gyfer adferiad gyda chwestiynau ar ystyriaeth a mesuriad yr effaith ar nodweddion gwarchoddedig, gostwng anghydraddoldebau deilliannau yn sgil anfantais cymdeithasol-economaidd a hawliau dynol. Mae angen egluro'r gofynion cyfreithiol o fewn y Ddeddf Cydraddoldeb a'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd yn y fframwaith hwn. Mae angen proses gwneud penderfyniadau tryloyw ar gyfer y fframwaith i adferiad ac ystyriaeth yn seiliedig ar dystiolaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol. Gall CCHD Cymru gynghori Llywodraeth Cymru ar y fframwaith.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru ychwanegu'r cwestiynau canlynol i'r Fframwaith i Arwain Cymru allan o'r Pandemig Coronafeirws:

- A yw pwrpas y newid polisi/penderfyniad wedi'i osod yn eglur?
- Ydym ni wedi defnyddio'r holl wybodaeth/tystiolaeth berthnasol sydd ar gael?
- Ydy'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan y polisi/penderfyniad wedi'u cynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau?

¹⁶ Dogfen Llywodraeth Cymru '[Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad](#)'

¹⁷ Dogfen Llywodraeth yr Alban '[Coronavirus \(COVID-19\): framework for decision making](#)'

- A nodwyd effeithiau positif a negyddol posib?
- *Oes cynlluniau i liniaru unrhyw effaith negyddol?*
- *Oes cynlluniau i fonitro effaith wirioneddol y cynnig?*

Dechrau'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd fel erfyn ar gyfer ymateb ac adferiad.

Mae'r argyfwng presennol yn debygol o gynyddu lefelau tlodi yng Nghymru ac effeithio'n fwy ar bobl sydd eisoes yn byw mewn tlodi. Bydd hyn yn cael mwy o effaith ar bobl sydd eisoes yn byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol ac yn croestorri ar draws mathau eraill o anghydraddoldeb.

Darpara'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd erfyn i Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus i leihau'r anghydraddoldebau deilliannau yn sgil anfantais cymdeithasol-economaidd drwy wneud penderfyniadau strategol. I wneud hynny, mae angen eglurder ar yr hyn yw'r anghydraddoldebau deilliannau mwyaf enbyd fel y bo gweledigaeth glir ac uchelgais i yrru yr ymateb yng Nghymru yn ei blaen mewn ffordd strategol.

Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru yn parhau i flaenoriaethu dechrau'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd. Gwnawn barhau i weithio'n glos gyda swyddogion i baratoi canllaw a gwybodaeth er mwyn sicrhau bod y ddyletswydd yn cael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd erbyn diwedd y flwyddyn a chymryd i gyfrif egwyddorion y ddyletswydd yn ei phroses gwneud penderfyniadau strategol presennol. Dylai dechrau ffurfiol y ddyletswydd gynnwys mynegiad eglur o anghydraddoldebau deilliannau yn sgil anfantais cymdeithasol-economaidd y mae rhaid i Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus ledled Cymru ganolbwyntio arnynt i'w lleihau ac ailadeiladu Cymru fwy cyfartal a theg.

Argymhelliad 12: I ddechrau rhoi'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd ar waith dylai Llywodraeth Cymru ystyried gostwng anghydraddoldebau iechyd yn sgil anfantais cymdeithasol-economaidd yn ei phroses gwneud penderfyniadau strategol. Dylai GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru sicrhau bod data wedi'i dadgyfuno yn cael ei gasglu a'i gyhoeddi ar achosion COVID-19 yng Nghymru - gan gynnwys yn ôl maes amddifadedd, rhyw, ethnigrwydd, cenedligrwydd ac anabledd - er mwyn deall yn well effaith iechyd gwahaniaethol y feirws, bwydo i'r broses gwneud penderfyniadau a chynorthwyo cydymffurfiaeth â'r PSED. Dylai Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru sicrhau bod y data hwn yn cael ei gasglu, ei gyhoeddi a'i adolygu pan nodir anghymesuredd mewn deilliannau iechyd.

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael ar [ein gwefan](#).

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at: Wales@equalityhumanrights.com. Rydym yn croesawu eich adborth.

I gael gwybodaeth am gyrchu ein cyhoeddiadau mewn fformat arall, cysylltwch â: Wales@equalityhumanrights.com.

Dewch o hyd i'n newyddion, digwyddiadau a chyhoeddiadau diweddaraf trwy gofrestru i dderbyn ein e-gylchlythyr.

EASS

I gael cyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb, gwasanaeth annibynnol ac am ddim.

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn testun 0808 800 0084

Oriau agor 09:00 i 19:00 (Llun i Gwener) 10:00 i 14:00 (Sadwrn)

Post FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

© 2020 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mai 2020

Awdur: Hannah Wharf, Angharad Price